# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 30 Tachwedd 2022

Amser: 09.00 - 12.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13035) yn:

http://senedd.tv/cy/13035

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Russell George AS (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AS<br>Gareth Davies AS<br>Sarah Murphy AS<br>Jack Sargeant AS<br>Joyce Watson AS |
| Tystion: | Jayne Bryant AS<br>Ken Skates AS, Comisiynydd<br>Gillian Baranski, Arolygiaeth Gofal Cymru<br>Vicky Poole, Arolygiaeth Gofal Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Helen Finlayson (Clerc)<br>Claire Morris (Ail Glerc)<br>Robert Lloyd-Williams (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Amy Clifton (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd)<br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Jayne Bryant AS, a oedd yn bresennol ar gyfer eitemau 1-5, yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau ar gyfer eitem 8 gan Jack Sargeant AS. Dirprwyodd KS ar ei ran ar gyfer yr eitem honno.

## 2 Sganio'r gorwel ym maes gofal cymdeithasol: sesiwn dystiolaeth gydag Arolygiaeth Gofal Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Arolygiaeth Gofal Cymru.

2.2 Cytunodd Arolygiaeth Gofal Cymru i ddarparu'r eitemau a ganlyn:

- Manylion ynghylch y broses a ddilynir gan awdurdodau lleol ar ôl cael adroddiadau gofal gan Arolygiaeth Gofal Cymru am gartrefi plant, ac ynghylch a oes unrhyw adborth yn dod i law ynghylch y camau a gymerir o ganlyniad.
- Linc i'r offeryn data a ddefnyddir i fonitro'r ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg.

Manylion y gwaith a gaiff ei wneud i wella arweinyddiaeth a rheolaeth yn y sector gofal cymdeithasol.

## 3 Papur(au) i'w nodi

### 3.1 Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

3.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**3.2 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018**

3.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**3.3 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Prif Weinidog mewn perthynas â chraffu ar oblygiadau ariannol Biliau**

3.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**3.4 Llythyr at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch argymhellion Pwyllgor y Bumed Senedd yn ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant**

3.4 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**3.5 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynglŷn â'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Cadernid Meddwl**

3.5 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**3.6 Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y cynnydd a wnaed tuag at ddileu hepatitis C yng Nghymru**

3.6 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**3.7 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y cynnydd a wnaed tuag at ddileu hepatitis C yng Nghymru**

3.7 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**3.8 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch y Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022**

3.8 Nododd y Pwyllgor y llythyr, a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i ofyn am ragor o eglurder a gwybodaeth.

### 3.9 Llythyr gan Awdurdod Ystadegau'r DU ynghylch adroddiadau'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau

3.9 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 3.10 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

3.10 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Sganio'r gorwel ym maes gofal cymdeithasol: trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 6 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â Llywodraeth Cymru, a chytunodd i drafod y mater ymhellach yn ei gyfarfod nesaf.

## 7 Craffu ar waith Iechyd a Gofal Digidol Cymru: trafod y llythyrau drafft

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gynnwys y llythyrau drafft at Iechyd a Gofal Digidol Cymru a phrif weithredwyr y byrddau iechyd.

## 8 Anghydraddoldebau iechyd meddwl - trafod yr adroddiad drafft

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i ystyried unrhyw newidiadau dros e-bost.